## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

## MESUR SENEDDOL GOFAL PERSONOL YN Y CARTREF

### Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau Mesur Seneddol Gofal Personol yn y Cartref, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried a'u cyflwyno gan Senedd y DU. "

### Y Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru. Cafodd ei gyflwyno o dan Reol Sefydlog 26.4 Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"). Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn yn cael ei osod o dan Reol Sefydlog 26.2. Mae Rheol Sefydlog 26 yn rhagnodi bod rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Mesur gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd y Mesur Gofal Personol yn y Cartref ar 25 Tachwedd 2009. Gellir gweld y Mesur yn:

http://services.parliament.uk/bills/2009-10/personalcareathome.html

### Crynodeb o'r Mesur a'i Amcanion Polisi

4. Noddir y Mesur gan yr Adran Iechyd. Prif ddiben y Mesur yw diwygio adrannau 15 a 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003, i ddileu'r cyfyngiad 6 wythnos ar hyd yr amser y gall rheoliadau ragnodi y bydd gofal personol yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl. Mae'r Mesur hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol.

5. Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu nodi yn adran 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003. Mae'n darparu y gall Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei wneud o dan adran 15 o'r Ddeddf. Mae'r Mesur arfaethedig yn diwygio'r pwerau gwneud rheoliadau yn adran 15, ac o ganlyniad, hefyd yn newid pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 16.

### Darpariaethau yn y Mesur Seneddol y Ceisir Cydsyniad Iddynt

Cymal 1: Darpariaeth gofal personol ddi-dâl yn y cartref.

6. Mae Cymal 1 yn gwneud diwygiadau i adran 15 o Ddeddf 2003 yn ogystal â diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol arall.

7. Mae is-adran (2) yn diwygio adran 15(4)(b) o Ddeddf 2003, i ddileu'r cyfyngiad o chwe wythnos ar ddarpariaeth gofal personol ddi-dâl, ac eithrio i'r graddau y mae'n gysylltiedig â darpariaeth gofal personol i berson sy'n byw mewn llety sy'n cael ei ddarparu ynghyd â gofal personol gan sefydliad. Byddai hynny'n cynnwys, er enghraifft, cartrefi gofal ond nid llety gwarchod na thai gofal ychwanegol. Trefniant yw tai gofal ychwanegol lle y mae person yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn llety arbenigol a gynlluniwyd ar gyfer anghenion pobl hŷn, y gall mai'r darparwr gofal fydd yn dod o hyd iddo neu yn ei drefnu ar eu rhan. Nid yw'r llety a'r gofal mewn llety o'r fath yn cael eu darparu ar y cyd, ond o dan drefniadau ar wahân, a wneir gan yr unigolyn.

8. Mae is-adran (3) yn darparu nad yw'r cyfyngiad o chwe wythnos yn adran 15(4)(b) yn berthnasol i ddarpariaeth gofal personol o dan gynllun lleoli oedolion. Mae cynllun lleoli oedolion yn golygu lleoli oedolyn mewn angen (megis person anabl) gyda gofalwr a allai rannu ei gartref gyda'r person. Mae'n debyg i faethu, a'r diben yw galluogi'r person mewn angen i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl.

9. Mae is-adran (4) yn darparu y gall y rheoliadau o dan adran 15, yn benodol, orfodi swyddogaethau ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r hawl i gael darpariaeth gofal personol ddi-dâl, ac y gallant gyfeirio at ganllawiau o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970. Gallai'r swyddogaethau y gellid eu gorfodi gynnwys, er enghraifft, pennu'r meini prawf ar gyfer darpariaeth ddi-dâl a phenderfynu pwy sy'n gymwys drwy gyfeirio at y meini prawf hynny, yn ogystal ag unrhyw feini prawf a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

10. Mae is-adran (4) hefyd yn mewnosod is-adran newydd (4C) yn adran 15 o Ddeddf 2003. Bydd y ddarpariaeth newydd yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol y pŵer i wneud hawl person i dderbyn gofal personol di-dâl yn amodol ar fynd drwy broses a gynlluniwyd i gynyddu i'r eithaf allu'r person hwnnw i fyw yn annibynnol. Gallai hyn gynnwys cyfnod byr o gefnogaeth ddwys â ffocws penodol ar gynyddu i'r eithaf sgiliau person i fyw'n annibynnol.

11. Mae is-adran (4) hefyd yn mewnosod is-adran newydd (4D). Yn unol â hynny, dylid ystyried, at ddibenion adran 15, bod person yn byw gartref os nad yw'r lle y mae'r person yn byw yn llety a ddarperir o dan Ran 3 o Ddeddf 1948, neu yn llety o'r fath a ddisgrifir yn yr is-adran ddiwygiedig (4)(b) (er enghraifft, cartref gofal).

12. Mae is-adran (5) yn mewnosod is-adran newydd (4E) yn adran 15 o Ddeddf 2003. Mae hyn yn darparu bod adran 21(5) o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 ("Deddf 1948") yn berthnasol i ddibenion adran 15 o Ddeddf 2003. Mae Adran 21(5) o Ddeddf 1948 yn darparu bod y cyfeiriadau at lety a

ddarperir o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno yn cynnwys cyfeiriadau at lety yn ogystal â gwasanaethau byrddio a gwasanaethau eraill, amwynderau ac angenrheidiau eraill, sy'n cael eu darparu mewn cysylltiad â'r llety (ar wahân i achosion lle y mae'r awdurdod sy'n rheoli'r lleoliad yn barnu nad yw'n angenrheidiol eu darparu). O ganlyniad, bydd cyfeiriadau o dan adran 15 at ddarparu llety o dan Ran 3 o Ddeddf 1948 yn cynnwys darparu gofal personol.

13. Mae is-adran (6) yn gwneud diwygiad canlyniadol i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Leol 1970 i gynnwys swyddogaethau a drosglwyddir i awdurdodau lleol o dan adrannau 15 ac 16 o Ddeddf 2003 yn y rhestr o swyddogaethau gofal cymdeithasol yn Atodlen 1 y Ddeddf honno. Mae Adran 7 o'r Ddeddf honno yn gosod rheidrwydd ar awdurdodau lleol i weithredu o dan arweiniad cyffredinol yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer eu swyddogaethau gofal cymdeithasol.

14. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf 1948 a Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983.

Cymal 2: Rhychwant, a theitl byr

15. Mae Cymal 2 yn darparu o ran rhychwant darpariaethau'r Mesur.

16. Mae'r darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Mater 15.1 Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Manteision Defnyddio'r Mesur Seneddol hwn**

17. Mae'r Mesur Seneddol Gofal Personol yn y Cartref arfaethedig yn diwygio adrannau 15 ac 16 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003. Os bydd yn cael ei ddeddfu, bydd yn galluogi i reoliadau gael eu gwneud o dan Ddeddf 2003, a allai ddarparu ar gyfer darparu gofal personol di-dâl am gyfnodau hwy na 6 wythnos.

18. Mae Deddf 2003 yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gofal personol, sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau amrywiol. Er bod y Mesur a chymhwysedd y Cynulliad (a chwmpas y Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Cymdeithasol (Cymru) arfaethedig) yn gorgyffwrdd, mae Deddf 2003, y mae'r Mesur yn ei diwygio, yn fwy eang na chymhwysedd y Cynulliad. Er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y pwerau llawnaf posibl o ran codi ffioedd am wasanaethau gofal cymdeithasol, mae'n briodol y dylai'r Mesur ymestyn i Gymru.

19. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gan hynny, wedi cael ei osod, a'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael ei gyflwyno, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau Ariannol**

20. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau a fydd yn codi o benderfyniad yn y dyfodol i arfer y pŵer i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gofal personol di-dâl (i bobl gyda lefelau uchel o anghenion gofal) yn amodol ar roi ystyriaeth lawn i ba mor fforddiadwy ydynt fel rhan o gyllidebau MEG a DRC yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac yn destun Arfarniad Effaith Rheoliadol a fyddai'n cynnwys dadansoddiad cost a budd.

Gwenda Thomas AC
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
Rhagfyr 2009

**CYNNIG CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**MESUR SENEDDOL GOFAL PERSONOL YN Y CARTREF**

"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai darpariaethau Mesur Seneddol Gofal Personol yn y Cartref, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gael eu hystyried a'u cyflwyno gan Senedd y DU."

Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gan Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru, o dan Reol Sefydlog 26.4 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Dyddiedig